**Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015 i 2030**

**Datganiad Mabwysiadu**
**26 Ionawr 2023**

**Cefndir**
Yn unol â gofynion Rheoliadau 25(2) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 a Rheoliad 16 o Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi Datganiad Mabwysiadu ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint.

Mae **Rhan 1** o'r datganiad yn mynd i'r afael â gofynion Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 ac mae **Rhan 2** yn cyd-fynd â gofynion Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004.

**Rhan 1: Gofynion RHEOLIADAU CYNLLUNIO GWLAD A THREF (CYNLLUNIAU DATBLYGU LLEOL) (CYMRU) 2005 (FEL Y'U DIWYGIWYD)**

1.1 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Sir y Fflint ar 24 Ionawr 2023. Daeth y CDLl yn weithredol ar ei ddyddiad mabwysiadu.

1.2 Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint yw'r ddogfen bolisi cynllunio ar gyfer Sir y Fflint. Mae'n nodi polisïau allweddol a dyraniadau defnydd tir a fydd yn llywio dyfodol Sir y Fflint ac yn arwain datblygiad hyd at 2030. Mae CDLl Sir y Fflint yn disodli Cynllun Datblygu Unedol Sir y Fflint a fabwysiadwyd.

1.3 Mae copïau o'r CDLl a fabwysiadwyd, adroddiad yr Arolygwyr Cynllunio a benodwyd i gynnal yr archwiliad annibynnol, adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (sy'n ymgorffori'r Asesiad Amgylcheddol Strategol) a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (Adroddiad HRA), ynghyd â'r Datganiad Mabwysiadu hwn, ar gael i'w harchwilio ar-lein yn www.siryfflint.gov.uk/ldp neu yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Tŷ Dewi Sant, Ewlo, ac yn Swyddfeydd a llyfrgelloedd Connects yn ystod oriau agor arferol. Hyd nes y cyhoeddir y mapiau cynigion a fabwysiadwyd, dim ond ar-lein y bydd y mapiau cynigion ar gael.

1.4 Gall unigolyn sy'n cael cam gan y CDLl sy'n dymuno cwestiynu ei ddilysrwydd ar y sail nad yw o fewn y pwerau a roddwyd gan Ran 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, neu bod unrhyw un o ofynion y Ddeddf honno neu unrhyw reoliad a wneir oddi tani na chydymffurfiwyd â nhw mewn perthynas â mabwysiadu'r CDLl, o fewn chwe wythnos i'r dyddiad a nodir ar yr hysbysiad mabwysiadu, wneud cais i'r Uchel Lys o dan Adran 113 o Ddeddf 2004.

**Rhan 2: Gofynion Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004.**

2.1 Eir i'r afael â hyn yn yr Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Terfynol a'r Wybodaeth Ddiweddaraf ar yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd sy'n gysylltiedig.